# Cyfnewidfa Rheolaeth Cyswllt Ffermio

David Phillips

Iwerddon

Cynhyrchu Coed Nadolig, ac yn arbennig, Ffynidwydd Llwydlas (Rhan 1 - Iwerddon)

12-19 Mehefin 2019

## 1. Cefndir

Mae gennyf fusnes fferm sydd wedi arallgyfeirio, wedi'i leoli i'r dwyrain o Gaerdydd, sy'n cynnwys 80.9 hectar o dir âr heb ei drin ac y mae'n lôm clai tywodlyd y mae dŵr yn draenio'n rhydd ac wedi'i ffurfio o weddillion rhewlifol caregog yn bennaf. Mae'r fferm yn cynnal diadell fach o ddefaid hefyd ac mae wedi arallgyfeirio trwy osod ysguboriau preswyl ac ynni adnewyddadwy sy'n cynhyrchu digon o ynni ar gyfer 500 o gartrefi gan barciau solar a thyrbin gwynt mewn perchnogaeth breifat.

Ar ôl sawl blwyddyn lle y bu'r elw o ffermio defaid a ffermio âr yn wael, rhoddwyd sylw i fentrau eraill a fyddai'n cynnig elw o'r economi leol yn hytrach na bod yn agored i farchnadoedd byd.

Cychwynnwyd y busnes tyfu coed Nadolig tua 10 mlynedd yn ôl a buom yn treialu rhywogaethau amrywiol. Canfuwyd bod un o'r rhywogaethau, Ffynidwydden Lwydlas, yn cynnig y goeden fwyaf deniadol, persawrus ac a fyddai'n para hiraf. Fodd bynnag, rydw i wedi cael problemau sylweddol wrth dyfu'r goeden hon.

Mae'n hysbys bod gweithgarwch cynhyrchu Ffynidwydd Llwydlas yn lleihau ar draws Ewrop, ond bod galw sylweddol am y goeden hon o hyd i'w gwerthu fel coed cyfan ac er mwyn cynhyrchu deiliach.

Nodwyd bod dwy wlad yn arbennig o bwysig i'r diwydiant – Denmarc ac Iwerddon.

Mae tyfwyr yn Iwerddon yn allforio coed Nadolig, gan gynnwys y Ffynidwydden Lwydlas, i'r DU. Gwelir hinsawdd a phridd tebyg i'r hyn a welir yng Nghymru yn Iwerddon, felly penderfynais ymweld ag Iwerddon ar gyfer rhan gyntaf fy nghyfnewidfa.

Mae Denmarc yn genedl sy'n allforio cynnyrch amaethyddol ar raddfa arwyddocaol, ac mae

ganddi ddiwydiant coed Nadolig mawr iawn. Maent yn cyflenwi niferoedd mawr o goed ar draws Ewrop gan gynnwys i adwerthwyr mawr a chadwyni canolfannau garddio yn y DU. Yn ogystal, nhw yw prif gyflenwr eginblanhigion coed o bob amrywiaeth i'r diwydiant yng ngogledd Ewrop, ac mae ganddynt rai planhigfeydd Ffynidwydd Llwydlas ar raddfa fawr er mwyn cynhyrchu deiliach. Bydd hyn yn destun ymweliad a gynhelir yn nes ymlaen.



*Ffynidwydden Lwydlas o ansawdd uchel ar Fferm Clearwell.*



*Deiliach Ffynidwydden Lwydlas heb fod o o ansawdd cystal, yn dangos gwywiad nodwyddau ar y canghennau canol.*

## 2. Y daith

**Diwrnod 1**

Teithio o Gaerdydd i Wexford, Iwerddon.

**Diwrnod 2**

**Kavanagh Christmas Trees**

Christy Kavanagh yw Cadeirydd cymdeithas Tyfwyr Coed Nadolig Iwerddon.

Mae gan Kavanagh Christmas Trees 40.5 hectar o goed Nadolig, ac mae tua 15% ohonynt yn Ffynidwydd Llwydlas. Mae ganddynt feithrinfa hefyd lle y tyfir trawsblaniadau o hadau i'w gwerthu i dyfwyr eraill, ac ardal dreialu sy'n cynnwys mathau anarferol.

Yna, euthum ymlaen i ymweld â **Kildare Christmas Trees,** lle y tyfir Ffynidwydd Llwydlas a

Nordmann o had. Roedd ganddynt glystyrau da iawn o Ffynidwydd Llwydlas yn ystod pob cyfnod tyfiant a busnes manwerthu llwyddiannus o'r buarth.

Diwrnod 3
Coed Nadolig Galway
Roedd y fferm hon yn cynnwys tua 12 hectar o fathau cymysg o goed. Maent yn fferm "dewis a thorri", sy'n drefnus iawn ac wedi ei gosod iweithredu'n effeithlon.

Diwrnod 4
Diwrnod teithio.

Diwrnod 5
Meithrinfeydd Belfield
Mae Meithrinfeydd Belfield yn defnyddio egwyddorion organig er mwyn tyfu coed Nadolig ar raddfa fasnachol. Maent yn defnyddio gwrteithiau organig a rheolaeth rheibwyr biolegol.

Yna, ymwelais â menter Killarney Christmas Trees, safle lle y cynhyrchir cymysgedd o fathau ar raddfa fawr. Roedd ganddynt safle manwerthu "dewis a thorri" llwyddiannus ac maent yn tyfu coed o bob maint, gan gynnwys coed mawr i'w harddangos mewn canol trefi.

Diwrnod 6
Diwrnod teithio.

Diwrnod 7
Canslwyd y cyfarfod a theithiwyd yn ôl i ardal Wicklow.

Diwrnod 8
Torchau Conor Browne
Mae Conor Browne yn entrepreneur ifanc a llwyddiannus sy'n tyfu coed ac yn torri deiliach ar ffermydd eraill er mwyn creu torchau a chyflenwi'r diwydiant blodeuwriaeth yn Iwerddon a'r DU. Roedd ganddynt safle sylweddol o goed Ffynidwydd Llwydlas a blannwyd yn ddiweddar.

Ymweliad 1: Kavanagh Christmas Trees. (Christy Kavanagh, Cadeirydd Tyfwyr Coed Nadolig Iwerddon)
Maent yn tyfu coed Nadolig ar safle sydd tua 100 erw o ran maint, ac fe'u tyfir dan drefniant cylchdro ar lôm tywodlyd sy'n draenio'n rhydd dros siâl, 200 metr uwchlaw lefel y môr. Mae 15% o'r coed yn Ffynidwydd Llwydlas ac mae ganddynt feithrinfa sy'n tyfu trawsblaniadau o had hefyd. Mae'r mathau o goed a dyfir yn cynnwys nifer o fathau Nordmann, Lasiocarpa Twrcaidd a Choreaidd. Roedd clystyrau da o Ffynidwydd Llwydlas 1.2m wrth 1.2m yn cael eu tyfu. Anfonir samplau deiliach rheolaidd at ddibenion dadansoddi meinwe a ffafrir pH isel. Tyfir yr holl goed o had a defnyddir system gwelyau ar y fferm er mwyn tyfu'r planhigion. Ffafrir trawsblaniad dau ac un, sy'n golygu y tyfir y planhigyn mewn gwely hadau am ddwy flynedd, yna caiff ei ail-blannu am un flwyddyn cyn ei osod mewn cae. Maent yn gwerthu eginblanhigion i dyfwyr eraill yn Iwerddon hefyd. Cesglir rhai o'r hadau coed gan goed 50 oed yn ardal Wicklow a chaiff eraill eu mewnforio o UDA.



*Eginblanhigion Ffynidwydd ar system gwelyau yng Nghoed Nadolig Kavanagh.*

Ymweliad 2:  Kildare Christmas Trees

Mae safle Kildare Christmas Trees tua 30 erw o dir ac mae tua 40% ohonynt yn Ffynidwydd Llwydlas.  Unwaith eto, mae'r ffermwr yn tyfu ei drawsblaniadau ei hun o'i feithrinfa hadau ei hun.  Gwnaethpwyd y gwaith trwyadl hyn er mwyn cadw allan clefydau a gludir mewn pridd o ardaloedd eraill.  Defnyddir chwistrellau ar ddail yn rheolaidd.  Collwyd rhai Ffynidwydd Llwydlas oherwydd eu bod wedi colli eu nodwyddau, felly dinistriwyd y safle a'i fraenaru cyn ail-blannu.

Mae'r fferm gerllaw ardal sy'n gymharol ddwys ei phoblogaeth.  Ceir safle arddangos lle y gellir dangos tua 50 o goed ffres.  Roeddent wedi rhoi cryn feddwl i'r posibiliadau er mwyn lleihau'r llafur yn ystod y cyfnod cynaeafu a chynhyrchwyd nifer fawr o gewyll paledi metel er mwyn symud coed o'r cae i'r iard ar rwydwaith o ffyrdd da sy'n bodoli o gwmpas y fferm. Addaswyd tractor Goldoni er mwyn gwneud gwaith rhwng rhesi o goed a defnyddir tociwr gwaelod Jutek ar gysylltiad 3-phwynt ar y cefn.  Hwn oedd yr unig dociwr gwaelod a welsom yn ystod ein hymweliad gan bod yn well gan ran fwyaf y tyfwyr docio'r gwaelod â llaw.



*Tociwr gwaelod Jutek*




*Tractor coedwigaeth Goldoni gyda giardiau ychwanegol er mwyn atal difrod gan goed.*



*Archwilio Ffynidwydden Lwydlas aeddfed.*

Ymweliad 3:  Galway Christmas Trees

Mae Galway Christmas Trees yn fferm coed Nadolig fach ond wedi'i threfnu'n dda, ac mae ganddi faes parcio a llwybrau i'r coed.  Er mai dim ond 30 erw yw maint y safle, mae'r perchennog yn gweithio ar y fferm yn llawn amser ac mae wedi datblygu busnes lleol da. Rhoddir pwyslais ar gwsmeriaid yn mwynhau'r profiad o brynu coeden, ac roedd y plannu yn ddiddorol gyda blociau bach o goed, llwybrau da ac ambell i loches cae.

Gan mai mawn dros glai yw'r pridd, roedd rhwydwaith da o ddraeniau cae wedi cael eu cloddio a'u llenwi i lefel y ddaear.  Yna, defnyddiwyd y rhain fel llwybrau.  Plannwyd rhywogaethau cymysg gan gynnwys Pinwydd Polion.

Plannwyd yr holl Ffynidwydd wrth ymyl ffosydd draenio er mwyn sicrhau nad oedd unrhyw safleoedd dan ddŵr.  Roedd hwn yn safle hynod o heriol ar gyfer Ffynidwydd Llwydlas, ond roedd yn llwyddiant yn sgil y gwariant ar waith draenio.  Prynir eginblanhigion fel rhai “dau ac un” ac fe'u tyfir ymlaen mewn potiau ar y fferm am flwyddyn ychwanegol cyn eu plannu allan â llaw.



*Llwybr – ffos ddraenio wedi'i llenwi i lefel y ddaear.*



*Ffynidwydden Lwydlas iach iawn yng Galway Christmas Trees*

Cronfa Amaethyddol Ewrop ar gyfer Datblygu Gwledig: Ewrop yn Buddsoddi mewn Ardaloedd Gwledig
European Agricultural Fund for Rural Development: Europe Investing in Rural Areas
Llywodraeth Cymru
Welsh Government



*Ffynidwydden Lwydlas yn erbyn ffos amderfyn mewn cae*

Ymweliad 4:  Belfield Nursery – Padraig Sugrue Bellfield Nursery

Mae Belfield Nursery yn tyfu ar sail egwyddorion ffermio organig.  Mae mewn lleoliad gwyntog uwchben Killorglin.  Tyfir y coed dan system cefnen a rhych er mwyn cynorthwyo gyda'r draenio.  Caniateir i borfa dyfu rhwng y rhesi coed ac mae defaid Sir Amwythig yn pori'r tir.

Defnyddir gwrtaith dofednod sych a phorthiant deiliol.  Rhyddheir rheibwyr biolegol megis siderogion i wrthsefyll pryfed gleision, yn hytrach na chwistrellu.  Ystyrient ei bod yn bwysig cael cynefin o lystyfiant a glaswellt lle y gall y rheibwyr gynyddu mewn nifer.  Pelenni gwrtaith dofednod sych yw'r gwrtaith a ddewisir er mwyn cynnig maeth cytbwys yn llawn elfennau hybrin i'r coed.



*Defaid Sir Amwythig bodlon yn Belfield.*



*Rhesi glaswelltog gyda rhych rhwng pâr o resi.*

## Ymweliad 4:  Killarney Christmas Trees

Mae Coed Nadolig Killarney yn gymysgedd o goed Nordmann yn bennaf, rhai Pinwydd Polion a rhai Ffynidwydd.  Mae'n fferm ddiddorol ac yn gwerthu nifer fawr o werthiant adwerthu. Torrir coed yn ffres a'u harddangos mewn sied.  Gwneir gwaith tocio sylweddol ar goed dros 20 troedfedd o uchder a fydd yn cael eu gosod mewn canol trefi – roedd rhai o'r coed hynny yn 20 mlwydd oed.



*Trafod manteision coed mawr.*

## Ymweliad 5:  Conor Browne Wreaths

Dychwelom i ardal Wicklow i gyfarfod Conor Browne, entrepreneur ifanc a ddechreuodd greu torchau pan oedd yn ei arddegau.  Mae wedi datblygu busnes mawr lle y mae gangiau tocio yn contractio ar gyfer tyfwyr eraill.  Yna, mae'n torri deiliach o ffermydd eraill o gwmpas Iwerddon ac yn cynhyrchu miloedd o dorchau, a werthir dan drefniant cyfanwerthu i ganolfannau garddio a safleoedd eraill yn Iwerddon a'r DU.  Mae wedi prynu tir ychwanegol yn ddiweddar, lle y mae wedi plannu Ffynidwydd Llwydlas gan ddefnyddio eginblanhigion “dau ac un” o Ddenmarc.  Mae'n plannu ar sgwâr 1.2m, er ei fod yn awgrymu y bydd yn lledaenu hwn yn y dyfodol efallai er mwyn cael gwell llif awyr.  Gwneir cryn dipyn o'i waith gan ddefnyddio chwistrellwyr cefn er mwyn sicrhau cymaint o le ag y bo modd sy'n rhoi cnwd. Pwynt pwysig a wnaethpwyd oedd bod pob chwistrellwr cefn yn cael eu rheoli gan drydan er mwyn cael patrwm chwistrellu manwl.



*Conor Browne yn archwilio Ffynidwydd Llwydlas y tymor hwn (sylwer ar leoliad manwl y planhigion).*

Mae'n barnu y bydd y diwydiant o bosib yn brin o ddeiliach yn y dyfodol.



*Adeilad bach er mwyn gwerthu coed Nadolig ar safle Conor Browne, gyda lle i eistedd y tu allan.*

## 3. Y Camau Nesaf

Yn dilyn yr ymweliad, mae wedi rhoi'r hyder i mi blannu Ffynidwydd Llwydlas mewn un safle addas, gyda'r bwriad o'u cynaeafu ar gyfer y farchnad deiliach.  Dewiswyd safle arbennig o ysgafnlle y mae'r pridd yn draenio'n rhydd;  fodd bynnag, defnyddir math gwahanol mewn

safle tebyg lle nad oes llawer o aer yn symud. Bydd sylw arbennig yn cael ei roi i ddelio ag unrhyw faterion draenio cyn plannu. Mae'n debygol y caiff rhai eginblanhigion eu sicrhau o ardal Wicklow ond byddwn yn cymryd cryn ofal gyda ffynhonnell eginblanhigion. Trefnir rhaglen chwistrellu a phorthiant deiliol gydag agronomegwr arbenigol er mwyn cadw'r planhigion yn iach. Rhoir ystyriaeth i reolaeth fiolegol nawr bob tro wrth ymyl rheolaeth gemegol pan geir problem gyda phlâu.

## Prif Negeseuon i'r diwydiant

1. Gallai tyfu Ffynidwydd Llwydlas fod yn ddewis arallgyfeirio proffidiol ar rai ffermydd yng Nghymru.
2. Mae'n ddewis heriol ond gwerth chweil o ran cnwd, ac yn un y mae'n rhaid gofalu amdano yn rheolaidd er mwyn sicrhau elw da.
3. Er mwyn llwyddo, mae angen pridd sych ac sydd yn draenio'n rhydd ar gnwd Ffynidwydd Llwydlas, yn ogystal â llif awyr da o gwmpas y coed. Bydd phytophthora yn lladd coed yn ystod unrhyw gyfnod o'u tyfiant.
4. Heb os, nid cnwd 'plannu ac anghofio amdano' yw hwn. Mae chwistrellau elfennau hybrin rheolaidd yn hollbwysig, ac mae defnydd cytbwys o wrtaith ynghyd â rhaglen chwistrellu wedi'i chynllunio yn angenrheidiol.
5. Bydd diffyg pendant Ffynidwydd Llwydlas yn y dyfodol yn y DU ac yn Iwerddon, er ei bod yn ymddangos bod digon o gyflenwadau Ffynidwydd Nordmann.
6. Cyfeiriwyd at gost llafur a'r anhawster wrth sicrhau llafur ar gyfer y tymor cyfanwerthu brig ym mis Tachwedd er mwyn torri a chynaeafu mewn caeau, a phroblemau wrth gludo i'r farchnad. Roedd hyn wedi ychwanegu costau sylweddol i'r cynnyrch yn Iwerddon.

   Nodwyd ei bod yn ymddangos mai ychydig iawn o bobl ifanc sydd yn y diwydiant. Cyfarfuom ag un tyfwr dan 30 oed yn unig.